# 1. Effeithiolrwydd yn y Rôl

## Cymwyseddau:

a. Cynnal Gwerthoedd y Cyngor
b. Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â'r "*Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau Aelod o Gyngor Gwynedd*"
c. Mynegi syniadau a gwybodaeth yn eglur, mewn modd sy'n gymorth i bobl ddeall
ch. Cloriannu dadleuon a gwneud penderfyniadau gan gadw cydbwysedd rhwng anghenion y cyhoedd a pholisi lleol
d. Gweithredu fel cyfaill beirniadol gan ganfod cyfleoedd i edrych yn fanwl ar sefyllfaoedd a rhoi adborth adeiladol

## Mae Aelod Cyngor Gwynedd effeithiol:

- Yn glir ynghylch ei rôl a'r cyfrifoldebau a sut y mae'r rhain yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu'r gwasanaeth gorau i drigolion Gwynedd
- Yn rhywun y gellir ymddiried ynddo/ynddi a dibynnu arno/arni, rhywun sy'n cadw at ei air
- Yn mynychu cyfarfodydd perthnasol a chymryd rhan ynddynt ac wedi paratoi ymlaen llaw
- Yn derbyn fod rhaid iddo/iddi wneud penderfyniadau anodd
- Yn osgoi oedi dianghenraid wrth wneud penderfyniadau
- Yn cydnabod pwysigrwydd cadw amser da, yn brydlon ac yn parchu amser pobl eraill
- Yn chwilio am wybodaeth briodol a digonol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau
- Yn cloriannu dadleuon yn ôl y dystiolaeth, ac yn dyfarnu'n ddiduedd ac yn annibynnol
- Yn dadansoddi a chymathu gwybodaeth gymhleth yn gyflym, gan gadw'r darlun strategol ehangach mewn golwg
- Yn holgar, yn gofyn am esboniadau ac yn gwirio bod argymhellion yn cael eu gweithredu
- Yn annog eraill trwy fod yn frwdfrydig a chadarnhaol
- Yn parchu cyfrinachedd
- Yn dilyn y drefn gyfreithiol gan gadw cydbwysedd rhwng gofynion y cyhoedd a pholisi lleol
- Yn monitro perfformiad ac yn ymyrryd pan fo hynny'n addas er mwyn symud ymlaen
- Yn chwilio am ddulliau gwell o weithio, ac yn barod i'w herio a'u craffu
- Yn wrthrychol, yn drylwyr ac yn gadarn wrth herio prosesau, penderfyniadau a phobl.
- Yn gweithredu fel cyfaill beirniadol, yn gwrando'n dda (ar bob barn), yn rhoi adborth cadarnhaol ac yn cydnabod llwyddiant eraill
- Yn barod i weithio y tu hwnt i gyfyngiadau'r rôl os ydi etholwr neu drethdalwr yn gofyn am fater tu allan i waith y Cyngor (os yn briodol)
- Yn medru tawelu sefyllfaoedd anodd, a lleihau tensiynau

# 1. Effeithiolrwydd yn y Rôl

## Cymwyseddau:

a. Cynnal Gwerthoedd y Cyngor
b. Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â'r "*Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau Aelod o Gyngor Gwynedd*"
c. Mynegi syniadau a gwybodaeth yn eglur, mewn modd sy'n gymorth i bobl ddeall
ch. Cloriannu dadleuon a gwneud penderfyniadau gan gadw cydbwysedd rhwng anghenion y cyhoedd a pholisi lleol
d. Gweithredu fel cyfaill beirniadol gan ganfod cyfleoedd i edrych yn fanwl ar sefyllfaoedd a rhoi adborth adeiladol

## Mae Aelod Cyngor Gwynedd aneffeithiol:

- Yn peidio â mynychu cyfarfodydd perthnasol
- Yn peidio â darllen adroddiadau a dogfennau cyn mynychu cyfarfod
- Yn osgoi gwneud penderfyniadau anodd
- Yn cyrraedd yn hwyr i gyfarfodydd heb roi gwybod i neb nac ymddiheuro
- Yn ymddwyn yn negyddol o flaen eraill
- Yn peidio â datgan buddiant personol ac yn gwneud penderfyniadau er budd personol
- Yn peidio â gwirio ffeithiau ac ystyried pob ochr i'r stori
- Yn gwneud penderfyniadau rhagfarnllyd a di-sail
- Yn gadael i eraill wirio a monitro cynnydd
- Yn gwneud penderfyniad heb ymgynghori nac ystyried unrhyw reoliadau a datblygiadau ehangach
- Yn anwybyddu ei gyfyngiadau ei hun o ran gwybodaeth ac arbenigedd
- Yn peidio â chwblhau gwaith mewn pryd, yn gadael busnes heb ei orffen ac yn anwybyddu'r rheidrwydd i gadw cydbwysedd rhwng gwaith y Cyngor ac ymrwymiadau eraill
- Yn peidio â pharatoi'n drylwyr na gwirio ffeithiau, yn defnyddio gwybodaeth ddewisol a dod i ganlyniadau unochrog
- Yn dibynnu gormod ar swyddogion, ac yn camu'n ôl wrth gael ei herio
- Yn anwybyddu a diystyru ei rôl yn y broses craffu
- Yn araf yn derbyn gwybodaeth newydd, gan ganolbwyntio ar fanylion a methu â gwahaniaethu rhwng gwybodaeth sy'n bwysig a'r manion amherthnasol, anghywir
- Yn gweithredu mewn modd gwrthwynebus, gan droi'n ymosodol a gwrthdrawiadol wrth gael ei herio
- Yn dewis 'chwarae'n fudr' yn lle cydweithio ag eraill er lles y Cyngor, a chamddefnyddio'r broses graffu er budd gwleidyddol
- Yn gadael i anghytundebau a dadleuon fynd yn bersonol

## 2. Arwain y Gymuned

### Cymwyseddau:

a. Gweithio'n frwdfrydig gydag empathi o fewn y gymuned er mwyn dysgu a deall materion
b. Gweithredu ar faterion sy'n bwysig yn lleol
c. Canoli yn deg ac adeiladol
ch. Annog parch drwy gynrychioli pob rhan o'r gymuned
d. Rheoli disgwyliadau

### Mae Aelod Cyngor Gwynedd effeithiol:

- Yn adnabod y gymuned, ac yn deall ei hanghenion
- Yn hawdd mynd ato/ati, yn dangos empathi, dealltwriaeth ac yn annog ymddiriedaeth
- Yn medru ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion a sefyllfaoedd
- Yn gwrtais ac yn dangos moesgarwch
- Yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r gymuned, yn gofyn am farn ac yn chwilio am ddulliau newydd o gynrychioli eraill
- Yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y gymuned, a beth sy'n bwysig yn lleol, gan gael gwybodaeth ac adnoddau o amrediad o ffynonellau a phobl
- Yn gweld y ddwy ochr i bob dadl mewn anghydfod ac yn canoli'n deg
- Yn llais ar gyfer pob rhan o'r gymuned ac yn datblygu partneriaethau o fewn y cyngor yn ogystal â sefydliadau allanol
- Yn barod i ymgyrchu yn frwdfrydig, gyda dewrder a dyfalbarhad ar ran eraill
- Yn gofyn am adborth gan y gymuned er mwyn cael cymorth i wella'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu
- Yn ceisio datrys problemau yn hytrach na'u trosglwyddo i rywun arall
- Yn ymfalchïo yn yr hyn y mae'n ei wneud ac yn awyddus i roi'r gwasanaeth gorau posib
- Yn cydbwyso cyfrifoldebau corfforaethol gyda chynrychioli'r ward

## 2. Arwain y Gymuned

### Cymwyseddau:

a. Gweithio’n frwdfrydig gydag empathi o fewn y gymuned er mwyn dysgu a deall materion
b. Gweithredu ar faterion sy’n bwysig yn lleol
c. Canoli yn deg ac adeiladol
ch. Annog parch drwy gynrychioli pob rhan o’r gymuned
d. Rheoli disgwyliadau

### Mae Aelod Cyngor Gwynedd aneffeithiol:

- Yn ymddwyn yn anghwrtais e.e. trwy anwybyddu pobl neu ddangos diffyg diddordeb
- Yn ymddwyn yn ymosodol
- Yn peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac yn aros i rywun ofyn cyn gwirfoddoli
- Yn anodd i gysylltu ag ef/hi
- Yn cadw proffil cyhoeddus isel, ac yn anodd ei adnabod gan aelodau’r gymuned
- Yn methu rhoi sylw teg a chyfartal i holl grwpiau a materion y gymuned
- Yn dangos diffyg dealltwriaeth o faterion ac anghenion lleol
- Yn cymryd safiad afrealistig am yr hyn sy’n bosib i’w gyflawni, a ddim yn cyflawni'r hyn mae’n ei addo
- Yn diystyru pobl, waeth pa mor amherthnasol yw’r ymholiad
- Yn ymddwyn yn ddiamynedd gydag eraill
- Yn ymddwyn yn amddiffynnol wrth ymdrin â chwynion
- Yn defnyddio’r cyfryngau / y wasg ar gyfer dial personol
- Yn osgoi cymryd cyfrifoldeb am ei rôl fel Aelod Etholedig

# 3. Cyfathrebu

## Cymwyseddau:

a. Rhannu a gwrando ar wybodaeth, barn a syniadau
b. Cyfathrebu effeithiol yn llafar ac ysgrifenedig
c. Deall bod cyfathrebu da yn bwysig ac y gall fod yn arf pwerus i gymell pobl
ch. Dewis a defnyddio dulliau cyfathrebu a chyfryngau priodol ar gyfer amrediad o gynulleidfaoedd
d. Meddu ar sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol effeithiol
dd. Deall peryglon gweithio ar sail rhagdybiaethau
e. Gwerthfawrogi teimladau pobl eraill a deall pwysigrwydd cynnwys pobl eraill ac ymgynghori gyda hwy
f. Siarad yn eglur a hyderus yn gyhoeddus

## Mae Aelod Cyngor Gwynedd effeithiol:

- Yn defnyddio amrediad o ddulliau i gyfathrebu'n glir ac yn hyderus gydag eraill ar bob lefel ac yn rhoi ei farn pan fo hynny'n briodol
- Yn medru cyflwyno a rhannu gwybodaeth yn eglur a chryno
- Yn addasu cynnwys, arddull a goslef y cyfathrebu yn ôl y gynulleidfa a'r sefyllfa
- Yn dangos empathi gyda'r teimladau a godir wrth ymdrin â sefyllfaoedd emosiynol, ond yr un pryd, yn gallu parhau i ganolbwyntio ar broblemau ac ar ganfod atebion iddynt
- Yn annog cyswllt a thrafodaeth ar faterion gydag eraill trwy fod yn unigolyn y mae'n hawdd mynd ato/ati
- Yn holi'n dreiddgar er mwyn deall yn well, herio rhagdybiaethau ac annog cyfranogiad, gan annog eraill i wneud yr un peth
- Yn ceisio ymgynghori gydag eraill, gwrando arnynt a'u hannog i gyfrannu syniadau, gan werthfawrogi eu cyfraniadau
- Yn cyfathrebu materion cyfrinachol a sensitif mewn modd priodol, gan godi materion anodd heb niweidio'r berthynas weithio
- Yn cyflwyno dadleuon mewn dull cryno, ystyrlon a hygyrch
- Yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda'r gymuned e.e. drwy daflen newyddion, galwadau ffôn a'r cyfryngau lleol
- Yn siarad yn eglur a hyderus yn gyhoeddus, gan ddefnyddio iaith hygyrch ac osgoi jargon neu 'iaith-cyngor'
- Yn rhoi adborth rheolaidd, sicrhau fod pobl yn derbyn gwybodaeth, a rheoli disgwyliadau
- Yn sicrhau cwrteisi ym mhob gohebiaeth

## 3. Cyfathrebu

### Cymwyseddau:

a. Rhannu a gwrando ar wybodaeth, barn a syniadau
b. Cyfathrebu effeithiol yn llafar ac ysgrifenedig
c. Deall bod cyfathrebu da yn bwysig ac y gall fod yn arf pwerus i gymell pobl
ch. Dewis a defnyddio dulliau cyfathrebu a chyfryngau priodol ar gyfer amrediad o gynulleidfaoedd
d. Meddu ar sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol effeithiol
dd. Deall peryglon gweithio ar sail rhagdybiaethau
e. Gwerthfawrogi teimladau pobl eraill a deall pwysigrwydd cynnwys pobl eraill ac ymgynghori gyda hwy
f. Siarad yn eglur a hyderus yn gyhoeddus

### Mae Aelod Cyngor Gwynedd aneffeithiol:

- Yn peidio â chyfrannu mewn cyfarfodydd
- Yn peidio ag ystyried anghenion cyfathrebu'r gynulleidfa
- Yn rhwystro eraill rhag cyfrannu
- Yn defnyddio "jargon" sy'n aneglur i eraill
- Yn methu mynegi ei hun mewn modd dealladwy ac eglur wrth siarad yn gyhoeddus
- Yn torri ar draws, ymddangos i beidio gwrando, a defnyddio iaith amhriodol neu ansensitif (e.e. gweiddi, bod yn ddigywilydd neu sarhaus)
- Yn gwrthod gwrando ar farn eraill, a chyflwyno dadleuon anhyblyg
- Yn defnyddio gwybodaeth yn anonest i amharchu eraill ac yn amharod i roi negeseuon amhoblogaidd neu'n methu gwneud hynny
- Yn cyflwyno dadleuon unochrog a dryslyd, gan ddefnyddio arddull ac iaith wael

# 4. Gweithio mewn Partneriaeth

## Cymhwysedd:

a. Gweithio gydag eraill er mwyn sicrhau canlyniadau a datblygu perthynas weithio dda

## Mae Aelod Cyngor Gwynedd effeithiol:

- Yn deall pwrpas a nod y bartneriaeth, ac yn gweithio tuag at hynny, gan barchu unrhyw ganllawiau a osodir ar gyfer y bartneriaeth
- Yn sefydlu perthynas weithio effeithiol gyda'r cyhoedd, Aelodau eraill, swyddogion a sefydliadau amrywiol
- Yn annog eraill i ddweud eu barn, ac yn fodlon gwrando arnynt
- Yn medru adnabod sut y mae ei weithredoedd yn effeithio ar eraill a gwneud ymdrech i weithio mewn modd sy'n adeiladol
- Yn cynrychioli Cyngor Gwynedd yn effeithiol mewn partneriaethau allanol
- Yn rhannu gwybodaeth ac arfer da
- Yn cyflawni ei nodau trwy gydlynu eraill, canolbwyntio ar y dasg yn barhaus ac yn dyfalbarhau pan fo rhwystrau'n dod i'r amlwg
- Yn gweithredu er budd y bartneriaeth yn hytrach nag agenda/budd personol
- Yn gwneud i eraill deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ymddiried ynddynt a'u bod yn rhan o bethau; ac yn adnabod pobl o wahanol gefndiroedd ac yn eu cynnwys
- Yn amyneddgar ac yn ystyried pethau ar gyfer yr hirdymor wrth ddatblygu rhwydweithiau a phartneriaethau
- Yn peidio â chynhyrfu ac yn parhau i ganolbwyntio pan fo'n cael ei feirniadu neu pan fo dan bwysau, ac yn barod i gydnabod camgymeriadau

# 4. Gweithio mewn Partneriaeth

## Cymhwysedd:

a. Gweithio gydag eraill er mwyn sicrhau canlyniadau a datblygu perthynas weithio dda

## Mae Aelod Cyngor Gwynedd aneffeithiol:

- Yn bygwth neu fychanu pobl wrth ymwneud â nhw
- Yn ymddwyn mewn modd sy’n rhwystro datblygiadau yn gyson
- Yn rhoi bai ar bobl eraill pan fo rhwybeth yn mynd o’i le
- Yn anwybyddu eraill a’u cau allan
- Yn dweud y bydd yn helpu, ac wedyn ddim yn gwneud hynny
- Yn defnyddio statws a swyddogaeth i roi pwysau ar unigolion ac i orfodi datrysiadau
- Yn peidio â chynnwys pobl eraill mewn penderfyniadau
- Yn peidio â gweithio ar draws rhaniadau gwleidyddol
- Yn gweithredu ar ben ei hun yn hytrach na chwilio am gymorth neu weithio fel rhan o dîm
- Yn defnyddio tactegau ymrannol er mwyn cynhyrfu’r dyfroedd o ran perthnasau, polisïau a phenderfyniadau’r Cyngor
- Yn bod yn amddiffynnol pan fo’n cael ei feirniadu
- Yn osgoi cyfaddef ei fod yn anghywir
- Yn ystyried partneriaid fel bygythiad neu rwystr

# 5. Ymwybyddiaeth Wleidyddol

## Cymwyseddau:

a. Adnabod y gymuned ehangach ac amcanion y Cyngor wrth wasanaethu'r cyhoedd
b. Canolbwyntio ar y gymuned a'r defnyddwyr gwasanaeth
c. Addasu pan fo newid
ch. Gweithio'n effeithiol mewn amrediad o sefyllfaoedd
d. Chwilio am bartneriaethau i wella darpariaeth
dd. Deall fframweithiau gwleidyddol y Cyngor a Chenedlaethol a gweithio'n effeithiol oddi mewn iddynt
e. Ymwybodol o'r materion sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaeth ar lefel sefydliadol, lleol a chenedlaethol
f. Agored i arfer gorau a chadw mewn cysylltiad gyda sut y mae sefydliadau eraill yn darparu gwasanaethau er mwyn cynorthwyo perfformiad
ff. Gweithio ar draws ffiniau grwpiau heb gyfaddawdu gwerthoedd na moeseg

## Mae Aelod Cyngor Gwynedd effeithiol:

- Yn parchu hawl eraill i farn a daliadau gwleidyddol eraill
- Yn deall yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni a'r rhan sydd ganddo/ganddi yn y gwaith o "Wella Gwynedd"
- Yn arddangos cywirdeb a gonestrwydd
- Yn cymryd agwedd bositif tuag at newid democrataidd, ac yn barod i addasu
- Yn hyrwyddo, ac yn gweithredu yn unol â'r polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Yn arddangos agwedd bositif a hyderus wrth gynrychioli'r Cyngor
- Yn deall sut y mae gweithredoedd yr Aelod ac Aelodau eraill yn effeithio ar amcanion a gwasanaethau ar draws y Cyngor
- Yn ymwybodol o drefniadau ac arferion gweithio o fewn y Cyngor
- Yn ymwybodol o'r hyn sy'n bosib yn yr hinsawdd leol a chenedlaethol ynghyd â'r blaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- Yn bod o gymorth i ddatblygu cydlyniad o fewn y grŵp a chyfrannu at gyfathrebu iach rhwng y grŵp a'r Cyngor
- Yn gweithredu'n foesegol, ac yn cyfathrebu gwerthoedd gwleidyddol trwy ganfasio, ymgyrchu etholiadol a thrwy adnabod ffyrdd newydd o ennyn diddordeb y cyhoedd
- Wedi'i ymrwymo i ddatblygu deallusrwydd gwleidyddol a dealltwriaeth o'r dirwedd wleidyddol leol a chenedlaethol
- Yn gweithio ar draws ffiniau grwpiau heb gyfaddawdu gwerthoedd gwleidyddol
- Yn deall pryd mae gwleidyddiaeth a pholisïau pleidiau yn briodol (a phryd nad ydynt e.e. materion Cynllunio)
- Yn ymwybodol o weithdrefnau'r Cyngor, rheolau gweithdrefn a threfn dadleuon; ac yn cadw atynt

# 5. Ymwybyddiaeth Wleidyddol

## Cymwyseddau:

a. Adnabod y gymuned ehangach ac amcanion y Cyngor wrth wasanaethu'r cyhoedd
b. Canolbwyntio ar y gymuned a'r defnyddwyr gwasanaeth
c. Addasu pan fo newid
ch. Gweithio'n effeithiol mewn amrediad o sefyllfaoedd
d. Chwilio am bartneriaethau i wella darpariaeth
dd. Deall fframweithiau gwleidyddol y Cyngor a Chenedlaethol a gweithio'n effeithiol oddi mewn iddynt
e. Ymwybodol o'r materion sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaeth ar lefel sefydliadol, lleol a chenedlaethol
f. Agored i arfer gorau a chadw mewn cysylltiad gyda sut y mae sefydliadau eraill yn darparu gwasanaethau er mwyn cynorthwyo perfformiad
ff. Gweithio ar draws ffiniau grwpiau heb gyfaddawdu gwerthoedd na moeseg

## Mae Aelod Cyngor Gwynedd aneffeithiol:

- Yn dweud "Dyma sut yr ydym wedi arfer gwneud pethau"
- Yn anwybyddu materion cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Yn arddangos agwedd negyddol tuag at y Cyngor yn gyffredinol
- Yn cyfathrebu'n negyddol gyda'r wasg (neu trwy gyfryngau eraill) heb ddilyn prosesau'r Cyngor yn gyntaf
- Yn arddangos gwerthoedd gwleidyddol anghyson
- Yn dangos diffyg cywirdeb a gonestrwydd ac yn tueddu i ddweud yr hyn y mae eraill am ei glywed
- Yn gwybod fawr ddim am faniffesto'r grŵp, ynghyd â gwerthoedd ac amcanion y grŵp
- Yn rhoi cymhelliant personol yn gyntaf, a bod yn rhy blwyfol
- Yn dangos diffyg dealltwriaeth ynghylch sut y mae polisi llywodraeth ganolog yn effeithio ar faterion lleol a gweithrediadau'r Cyngor

# 6. Hunanreoli

## Cymwyseddau:

a. Rhagweithiol
b. Derbyn cyfrifoldeb am ei (g)weithredoedd ei hun
c. Meddu ar lefelau uchel o hunanymwybyddiaeth
ch. Cymryd cyfrifioldeb am berfformiad personol
d. Aelod effeithiol o dîm
dd. Trefnus
e. Dangos cywirdeb a gonestrwydd
f. Emosiynol wydn ac ymwybodol
ff. Blaenoriaethu tasgau a defnyddio amser yn effeithiol
g. Gallu defnyddio Technoleg Gwybodaeth yn effeithiol yn y rôl

## Mae Aelod Cyngor Gwynedd effeithiol:

- Yn blaenoriaethu ac yn rheoli ei (l)lwyth gwaith ei hun mewn modd sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o amser
- Yn drefnus o ran gweinyddu dogfennau (papur ac electroneg)
- Yn mabwysiadu dull proffesiynol a moesegol yng nghyswllt ei rôl a pherthynas weithio gydag eraill
- Yn parhau i ganolbwyntio a bod yn ddiduedd ac yn dangos ymrwymiad hyd yn oed pan fo dan bwysau
- Yn cymryd cyfrifoldeb dros ei (d)datblygiad personol, yn adnabod cryfderau a gwendidau, ac yn manteisio ar yr hyfforddiant y mae'r Cyngor yn ei gynnig
- Yn delio'n dda gyda phwysau a straen sy'n gysylltiedig â gwaith, yn cadw'n iach ac yn gofyn am gymorth pan fo'i angen
- Yn cymryd amser i feddwl am ei rôl a'r modd y mae'n perfformio, ac yn gofyn am adborth adeiladol gan eraill
- Yn chwilio am gyngor a ffyrdd o wella'r modd y mae'n perfformio, gan Aelodau eraill a phobl mewn meysydd a sefydliadau eraill
- Yn cyfaddef camgymeriadau, yn dysgu oddi wrthynt ac yn cymryd cyfrifoldeb am y canlyniad
- Yn defnyddio Technoleg Gwybodaeth yn effeithiol i ddarganfod a rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r rôl
- Yn ymfalchïo mewn cyflawni'r hyn mae etholwyr a swyddogion yn disgwyl ganddo/ganddi i'r safon uchaf
- Yn arloesol ac yn barod i feddwl 'y tu allan i'r bocs'

# 6. Hunanreoli

## Cymwyseddau:

a. Rhagweithiol
b. Derbyn cyfrifoldeb am ei (g)weithredoedd ei hun
c. Meddu ar lefelau uchel o hunanymwybyddiaeth
ch. Cymryd cyfrifioldeb am berfformiad personol
d. Aelod effeithiol o dîm
dd. Trefnus
e. Dangos cywirdeb a gonestrwydd
f. Emosiynol wydn ac ymwybodol
ff. Blaenoriaethu tasgau a defnyddio amser yn effeithiol
g. Gallu defnyddio Technoleg Gwybodaeth yn effeithiol yn y rôl

## Mae Aelod Cyngor Gwynedd aneffeithiol:

- Yn addo pethau mae'n gwybod na all eu cyflawni
- Yn peidio â pharatoi ar gyfer cyfarfodydd
- Yn gweithio mewn ffordd anhrefnus
- Yn annibynadwy pan fo o dan bwysau
- Yn gwrthod cymorth a chyngor sy'n cael eu cynnig iddo/iddi
- Yn troi'n amddiffynnol neu'n ymosodol mewn ymateb i her neu feirniadaeth
- Yn amharod i ddatblygu sgiliau newydd
- Yn rhoi'r bai ar eraill am broblemau a chamgymeriadau
- Yn gadael pethau hyd at y funud olaf, a chreu tasgau brys i rywun arall
- Yn taflu'r baich ar rywun arall
- Yn caniatáu i ddiddordeb neu farn bersonol amharu ar ei (g)waith
- Yn peidio â dysgu o gamgymeriadau
- Yn osgoi defnyddio Technoleg Gwybodaeth